Adroddiad Ymgynghori

Cam 2b Gwelliannau Trafnidiaeth a Hygyrchedd Heol y Gadeirlan

Rhif Project SPHTT 15101

Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y cynllun uchod rhwng 23/09/2015 a 09/10/2015.

Diben yr ymgynghoriad oedd cael barn gan bobl leol i lywio a gwella dyluniad y cynllun terfynol. Crynhoir y materion a godwyd isod, ynghyd â'r ymateb. Codwyd nifer o faterion mewn llythyr a ddosbarthwyd i'r trigolion gan swyddfa'r AC Mark Drakeford, ac maent wedi'u cynnwys isod lle y bônt yn berthnasol.

Mater

Defnyddiwch y trefniant unffordd arfaethedig i greu mwy o lefydd parcio o bosibl drwy drefnu llefydd parcio en echelon, yn hytrach na'r alinio i'w gilydd, a chynyddu nifer y llefydd parcio i drigolion. Cyflwyno aros cyfyngedig i bobl nad ydynt yn breswylwyr barcio.

Ymateb

Nid yw creu mwy o lefydd parcio (gan gynnwys i breswylwyr) yn rhan o'r cynllun hwn. Bydd y Cyngor yn ymgynghori ar Strategaeth Parcio newydd yn fuan a fydd yn mynd i'r afael â pharcio ar y stryd.

Mater

Lleihau'r cyfyngiad cyflymder i 20mya.

Ymateb

Ni fyddai cyfyngiad cyflymder 20mya yn briodol ar Heol y Gadeirlan, ac nid yw newid y cyfyngiad cyflymder i 20mya ar y strydoedd cyfagos dan fantell y cynnig hwn.

Mater

Troedffyrdd cul i greu mwy o lefydd parcio.

Ymateb

Nid yw'r troedffyrdd yn ofnadwy o lydan yn yr ardal hon, yn enwedig pan fo digwyddiadau'n cael eu cynnal. Nid yw creu mwy o lefydd parcio (gan gynnwys i breswylwyr) yn rhan o'r cynllun hwn. Bydd y Cyngor yn ymgynghori ar Strategaeth Parcio newydd yn fuan a fydd yn mynd i'r afael â pharcio ar y stryd.

Mater

Bydd cyflwyno system unffordd yn gwaethygu tagfeydd yn y cyffyrdd yn ardal Plasturton Place/Gardens/Avenue.

Ymateb

Ailystyrir y cynnig i greu strydoedd unffordd yn sgîl yr ymatebion a ddaw i law ar yr ymgynghoriad.

Mater

Dylid cael gwared ar y trefniant unffordd arfaethedig.

Ymateb

Ailystyrir y cynnig i greu strydoedd unffordd yn sgîl yr ymatebion a ddaw i law ar yr ymgynghoriad.

Mater

Ni ddylai fod mynediad i Talbot St a Hamilton St o Heol y Gadeirlan i atal pobl rhag ceisio cyflymu eu taith.

Ymateb

Ailystyrir y cynnig i greu strydoedd unffordd yn sgîl yr ymatebion a ddaw i law ar yr ymgynghoriad.

Mater

Dylid creu mwy o strydoedd pengaead a strydoedd unffordd i atal traffig drwodd rhag defnyddio strydoedd preswyl yr ardal.

Ymateb

Ailystyrir y cynnig i greu strydoedd unffordd yn sgîl yr ymatebion a ddaw i law ar yr ymgynghoriad, ond mae creu rhagor o strydoedd unffordd/pengaead y tu hwnt i gwmpas y cynllun hwn.

Mater

Bydd creu lôn fysus yn arwain at golli llefydd parcio ar Heol y Gadeirlan.

Ymateb

Byddai'r lôn fysus yn cael gwared ar tua 66m o lefydd parcio anghyfyngedig ar y briffordd, sef 12 car. Rhan fechan iawn o'r llefydd parcio anghyfyngedig fyddai hynny.

Mater

Bydd creu lôn fysus yn gwaethygu tagfeydd ar Heol y Gadeirlan.

Ymateb

Bydd y lôn fysus yn galluogi bysus i glirio cyffordd Heol y Gadeirlan a Heol Ddwyreiniol y Bont-faen heb orfod ciwio, gan wella amseroedd teithio ac atyniad trafnidiaeth gyhoeddus. Ni fydd y mesurau arfaethedig yn lleihau capasiti'r rhwydwaith.

Mater

Byddai'r trefniadau arfaethedig i Talbot St yn gwaredu llwybr beicio cyswllt pwysig i'r dwyrain i Ganol y Ddinas drwy Barc Bute, y Brifysgol a Thaith Taf.

Ymateb

Ailystyrir y cynnig i greu strydoedd unffordd yn sgîl yr ymatebion a ddaw i law ar yr ymgynghoriad. Mae cynnal cysylltiadau beicio da'n rhan bwysig o bolisïau teithio'r Cyngor. Un ateb posibl yw creu llwybrau beicio deuffordd gyda beicwyr yn croesi Heol y Gadeirlan ar y groesfan twcan a osodir yno . Byddwn yn ymchwilio i hyn.

Mater

Dylai fod llwybr deuffordd i feiciau ar Talbot St a Hamilton St.

Ymateb

Ymchwilir i greu llwybrau beicio deuffordd.

Mater

Nid yw'r lonydd beicio a gynigir yn ddigon llydan.

Ymateb

Byddwn yn ailystyried dyluniad y nodweddion yn ystod cam dylunio manwl y cynllun yn sgîl yr ymatebion a ddaw i law.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law yn fanwl penderfynwyd bwrw ymlaen ar sail elfennau strategol allweddol y cynllun ar yr adeg hon, sef ailfodelu cyffordd Clos Sophia/Heol y Gadeirlan/Talbot St i ddarparu cyfleusterau croesi syth a chreu lôn fysus rannol tua'r de ar Heol y Gadeirlan i'r de o'r gyffordd â Chlos Sophia.

Caiff newidiadau i Talbot St a Hamilton St eu gohirio a gellir eu hystyried yn rhan o'r ymgynghoriad ehangach ar Bolisi Parcio diwygiedig y Cyngor.